

24 Gorffennaf 2017

Annwyl Brif Weithredwr,

### Ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol.

Fel rhan o'r ymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi bod yn clywed tystiolaeth am fynediad at therapïau seicolegol, ac amseroedd aros ar eu cyfer. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed pa ddarpariaethau sydd ar gael ym mhob Bwrdd Iechyd. I lywio casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- y broses i fenyw y mae angen cymorth therapi seicolegol arni gael mynediad ato;
- amseroedd am fynediad at wasanaethau therapi seicolegol;
- nifer y sesiynau seicolegol clinigol amenedigol unigol a sesiynau i grwpiau a ddarperir gan eich Bwrdd Iechyd bob wythnos;
- dadansoddiad o'r gyfran o amser a dreulir gan bob un o'ch seicolegwyr ar ddarparu sesiynau therapi seicolegol:


(A) 1-i-1, a

(B) sesiynau grŵp,

ar gyfer menywod y mae angen cefnogaeth amenedigol arnynt [rhowch ddata wedi'i ddadgyfuno ar gyfer (a) a (b)].

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth hon yn fawr erbyn 24 Awst 2017.

Yn gywir



Lynne Neagle AC  
Cadeirydd

